

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Cyfarfod y Grŵp Gweithredu Strategol

Dydd Mawrth 14 Mai, 1100 – 1500

Ystafell Gyfarfod

Yr Hen Lyfrgell

Crynodeb o'r cyfarfod

1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r grŵp a chafodd pobl eu cyflwyno i'w gilydd.

2. Cefndir y Bil / Trosolwg o'r Bil

Rhoddodd Llywodraeth Cymru drosolwg o'r Bil a'i hynt hyd yma.

3. Cylch gwaith ar gyfer y Grŵp Gweithredu Strategol

Bu'r grŵp yn trafod y cylch gwaith. Tynnodd yr aelodau sylw at nifer o faterion allweddol a oedd yn ymwneud â gweithredu'r ddeddfwriaeth. Roedd y materion hynny'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r newid arfaethedig yn y gyfraith; yr effaith bosibl ar gapasiti sefydliadau a gwasanaethau; a sicrhau bod modd gweithio'n effeithiol gyda phob rhanddeiliad gan gynnwys sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli, megis yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

O safbwynt codi ymwybyddiaeth, byddai angen i'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda rhanddeiliaid a thrwyddynt fod yn rhan o'r strategaeth gyfathrebu, er mwyn cynyddu'r graddau y byddai'r neges yn cyrraedd pobl yn gyffredinol yn ogystal â grwpiau penodol. Dylid ystyried sut y bwriedir ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau a chymunedau megis plant a phobl ifanc, teuluoedd, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a grwpiau ffydd a sut y bwriedir ystyried eu barn. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i gynnal ymgyrch gyfathrebu ddwys, a'i bod eisoes yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol a chyda gwahanol sectorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu grŵp arbenigol ar gyfathrebu â rhanddeiliaid er mwyn ystyried rychwant yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth ynghylch y ddeddfwriaeth. Cytunwyd y dylid sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Strategol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am y cynlluniau codi ymwybyddiaeth.

Nodwyd mai pwrpas y Grŵp Gweithredu Strategol yw goruchwyllo'r gwaith gweithredu o safbwynt strategol. Cytunwyd y dylai'r Grŵp Gweithredu Strategol geisio cyfarfod bob chwarter yn ystod y ddwy flynedd nesaf (a fydd yn cynnwys y cyfnod pan fydd proses y Cynulliad yn digwydd ac, os caiff y Bil ei basio, y cyfnod

hyd at gychwyn y ddeddfwriaeth). Cytunwyd hefyd y gallai fod angen iddo gyfarfod ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu.

At hynny, cytunwyd y dylai cylch gwaith y Grŵp Gweithredu Strategol a phob grŵp gorchwyl a gorffen gynnwys yr opsiwn i gyfethol arbenigwyr i'r grwpiau. Byddai cylch gwaith y Grŵp Gweithredu Strategol yn cael ei ddiweddarau'n briodol ac yn cael ei ddosbarthu.

4. Creu grwpiau gorchwyl a gorffen

Cafwyd trafodaeth ynghylch creu grwpiau gorchwyl a gorffen. Yn ogystal â'r pedwar grŵp gorchwyl a gorffen a awgrymwyd ac y cytunwyd arnynt yn y cylch gwaith, cytunwyd hefyd y byddai codi ymwybyddiaeth yn cael ei gynnwys fel ffrwd waith yn y cynllun gweithredu cyffredinol.

5. Gweithdai

Rhannodd y cyfarfod yn ddau grŵp er mwyn cynnal gweithdai i gytuno ar yr ystod o grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ofynnol, eu cylch gwaith, eu nodau a'u hamcanion, a'r cynrychiolwyr sy'n ofynnol ar gyfer y grwpiau hynny.

Roedd y pwyntiau allweddol a wnaed yn ystod y gweithdai'n cynnwys y canlynol:

- Mae'r pedwar grŵp gorchwyl a gorffen a nodwyd, ynghyd â'u cylchoedd gwaith, yn ymddangos yn gywir yn gyffredinol. Gwnaed awgrymiadau ynghylch cynrychiolwyr ychwanegol ar gyfer rhai o'r grwpiau.
- Mae codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith yn agwedd hollbwysig ar y gwaith gweithredu, ac mae angen i'r agwedd honno gael ei hymgorffori yn y cynllun gwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu. Cytunwyd y dylai'r Grŵp Gweithredu Strategol gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gwaith codi ymwybyddiaeth, ac y dylai unrhyw gysylltiadau a synergeddau â gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen gael eu nodi.
- Mae'n hollbwysig ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, plant a phobl ifanc, a lle bo'n briodol gellid rhoi prawf ar waith y grwpiau gorchwyl a gorffen drwy ymgynghori â gwahanol grwpiau a chymunedau.
- I rai o'r grwpiau gorchwyl a gorffen, mae mapio'r ddarpariaeth bresennol neu'r prosesau presennol yn gam allweddol tuag at ddeall y newidiadau a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i'r newid yn y gyfraith.
- Yn gyffredinol, dylid ceisio sicrhau cysondeb ar draws Cymru yng nghyswllt unrhyw newidiadau neu unrhyw ddarpariaeth newydd a gyflwynir o ganlyniad i'r newid yn y gyfraith.

Cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cael cynrychiolwyr ychwanegol ar gyfer y grwpiau lle bo'n briodol; a sicrhau bod y pwyntiau a'r awgrymiadau a wnaed yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y grwpiau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol.

6. Sylwadau clo

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod. Diolchodd Llywodraeth Cymru i aelodau'r grŵp am eu hamser ac am rannu eu harbenigedd. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Medi 2019.